
Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response

Enw / Name:	Owen Evans
Rôl / Role:	Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
E-bost / Email:	Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru
Rhif Ffôn / Tel No:	029 2044 6446
<hr/>	
Dyddiad / Date:	16.06.23
Pwnc / Subject:	Cynigion ar gyfer Bil Addysg Gymraeg

Gwybodaeth gefndir am Estyn

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, rydym yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Ein prif nod yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil 2022 a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i ni ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae ein cylch gwaith yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, ysgolion pob oed, ysgolion uwchradd, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, a hyfforddiant cychwynnol athrawon.

Gallwn roi cyngor i'r Senedd Cymru ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, rydym wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

Ymateb

Cyflwyniad

Rydym yn croesawu'r Bil ac yn gobeithio y bydd y sylwadau isod yn ddefnyddiol wrth ddatblygu'r Bil ymhellach. Mae'r Bil yn bwysig er mwyn cefnogi'r nodau o dyfu niferoedd sy'n gallu siarad Cymraeg ar draws Cymru a gwarchod cymunedau Cymraeg lle mae gostyngiad yn niferoedd y siaradwyr. Rydym yn cytuno bod gan y system addysg rôl bwysig wrth ystyried yr heriau hyn, ynghyd a'r uchelgais i bob dysgwr ddod yn siaradwr Cymraeg hyderus drwy'r system addysg statudol.

Rydym wedi cynnig sylwadau sy'n adeiladu ar ein barn parthed y materion canlynol:

- Credwn bod cynnwys y targed cenedlaethol o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 yn y Bil yn gosod cyd-destun bwysig.
- Credwn bod gan awdurdodau leol rôl bwysig wrth weithio tuag at y deiliant sy'n gyfystyr a lefel B2 erbyn 2050.
- Rydym yn croesawu continwwm medrau Cymraeg sydd â sail gyfreithiol a chadarn.
- Credwn bydd creu cyfundrefn statudol ar gyfer categoraidd ysgolion a gynhelir yn ôl cyfrwng iaith yn sail gadarn i fonitro perfformiad ysgolion wrth wireddu gofynion eu categori.
- Credwn mai rôl yr awdurdod lleol yw pennu a chymeradwyo categori pob ysgol ac nid cyrff llywodraethol unigol.
- Nid dyletswydd yr awdurdodau yn unig yw cynllunio capasti priodol o ran y gweithlu addysg sydd â medrau Cymraeg addas. Mae buddsoddiad ariannol, cymhellion a monitro parhaus yn hanfodol ar gyfer gwella'r sefyllfa, ynghyd â chydweithio rhwng yr awdurdodau, Llywodraeth Cymru a sefydliadau addysg gychwynnol athrawon.
- Credwn bod gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu addysg drochi hwyr i ddysgwyr yn bwysig.
- Mae angen sicrhau bod cyrff llywodraethu yn monitro cynnydd ysgolion yn erbyn eu targedau i ddatblygu'r Gymraeg yn flynyddol.
- Mae angen hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg ac addysg drochi i rieni. Yn ogystal, credwn bod angen hyrwyddo ymhellach manteision dwyieithrwydd trwy gyfeirio at yr ymchwil ddiweddaraf.

Cwestiynau'r ymgynghoriad

Cwestiwn 1 – Ydych chi'n cytuno y dylid cynnwys mewn Bil ddarpariaeth ynghylch y targed cenedlaethol o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Credwn fod cynnwys y targed cenedlaethol o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 yn y Bil yn holl bwysig. Mae cyfrifioldeb ymarferwyr byd addysg yn allweddol er mwyn cyrraedd y nod hwn ac mae'r cynnig yma yn creu cyswllt mwy uniongyrchol rhwng y system addysg a'r nod o gynyddu niferoedd y siaradwyr Cymraeg. Rydym hefyd yn ymwybodol bod angen polisiau a gweithredu ehangach yn genedlaethol ac yn gymunedol i hyrwyddo'r Gymraeg er mwyn creu a chynnal siaradwyr Cymraeg. Mae ehangu addysg cyfrwng Cymraeg a gwella deilliannau ieithyddol dysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a

chyfrwng Saesneg hefyd yn fodd i gyfrannu'n gadarn at ehangu'r gweithlu fydd yn hyderus a hyfedr eu medrau Cymraeg. Bydd hyn yn ei dro yn cefnogi'r nod i greu miliwn o siaradwyr Cymraeg.

Cwestiwn 2 – Ydych chi'n credu y dylai fod rôl bendant gan awdurdodau lleol i weithio tuag at y deilliant sy'n gyfystyr â lefel B2 erbyn 2050? Ac os felly, beth ddylai'r rôl honno fod?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Rydym o'r farn bod cyfraniad awdurdodau lleol wrth weithio tuag at y deilliant hwn yn elfen bwysig. Credwn bod angen i'r Bil sicrhau bod y deilliant yn llywio penderfyniadau y mae'r awdurdodau lleol yn eu gwneud wrth gynllunio darpariaeth addysg yr awdurdod. Rydym yn cefnogi'r cynnig bod angen i awdurdodau lleol hyrwyddo'n rhagweithiol gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg gan anelu i bob disgybl ddod yn hyderus yn siarad yr iaith erbyn eu bod yn gadael yr ysgol. Credwn fod angen targed mesuradwy ar bob awdurdod i allu hyrwyddo a gwireddu hyn yn deg ynghyd â sicrhau bod swyddogion penodol gan bob awdurdod fyddai â chyfrifoldeb dros y gwaith hwn. Mae angen i awdurdodau gydweithio ar y gwaith hyrwyddo a rhannu arfer dda yn y maes. Byddai'n fuddiol i Estyn fonitro'r ddarpariaeth fel rhan o'n gwaith gydag awdurdodau lleol. Yn ogystal, mae angen sicrhau bod y gwasanaethau gwella ysgolion yn darparu rhaglenni dysgu proffesiynol sy'n gydlynol gyda nodau datblygu'r gweithlu sydd yn gynwysedig yng Nghynlluniau Strategol y Gymraeg mewn addysg pob awdurdod.

Hoffwn nodi y dylid ystyried pennu deilliant B2 fel nod addas trosfwaol ond bod 'yna ddisgwyliad ar ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog i anelu at lefelau mwy uchelgeisiol.

Cwestiwn 3 – Ydych chi'n credu y dylai fod rôl bendant gan Weinidogion Cymru i weithio tuag at y deilliant sy'n gyfystyr â lefel B2 erbyn 2050? Ac os felly, beth ddylai'r rôl honno fod ?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Rydym o'r farn bod cyfraniad Gweinidogion Cymru wrth weithio tuag at y deilliant hwn yn elfen bwysig. Er ein bod yn cydnabod y byddai'n fuddiol dirprwyo agweddau o'r gwaith i reolaeth leol, mae'n bwysig bod strategaeth genedlaethol yn cael ei harwain yn ganolog. Mae'n bwysig hefyd creu atebolrwydd ar lefel uchel er mwyn sicrhau bod gweithredu bwriadus a chynnydd addas yn cael ei wneud yn erbyn cerrig milltir perthnasol.

Cwestiwn 4 – Ydych chi'n cytuno gyda'r cynnig y dylai dyletswydd fod ar Weinidogion Cymru i ddatgan y continwrm sgiliau Cymraeg?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Cytunwn gyda'r cynnig uchod. Rydym yn cefnogi'r syniad fod y continwrm yn efelychu cysyniad y safonau rhyngwladol y mae'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin o ran lefelau iaith (a adnabyddir fel CEFR) yn ei gynnig. Rydym hefyd yn croesawu fod gan y continwrm sail gyfreithiol a chadarn i alluogi datblygu polisiau a chynlluniau gweithredu yn y dyfodol. Yn ogystal, mae'n bwysig y bydd yn cael ei hadolygu a'i gwerthuso'n gyson. Yn sgil hyn, gellid defnyddio'r ddogfen yn hyderus fel sail i gynllunio darpariaeth ar gyfer addysgu'r Gymraeg. Mae'n allweddol fod cyflwyno'r continwrm yn cael ei gefnogi gan raglen gynhwysfawr o ddatblygiad proffesiynol ar gyfer athrawon a chymorthyddion dosbarth. Byddai adnabod y camau datblygiad ieithyddol gydag arweiniad sy'n olrhain y cynnydd o un cam i'r nesaf yn adnodd ac yn arf allweddol i arfogi athrawon a chymorthyddion.

Rydym wedi adnabod yr angen i gyflwyno continwrm iaith mewn adroddiadau thematig diweddar. Mae'r adroddiad ar gaffael yr iaith Gymraeg (2021) yn tynnu sylw i'r ffaith bod darpariaeth rhagorol yn 'dwysau dealltwriaeth ymarferwyr o'r continwrm cynnydd ar gyfer dysgu iaith'. Mae'r adroddiad ar addysg drochi Cymraeg (2022) yn adnabod pwysigrwydd cyflwyno 'geirfa a phatrymau cystrawennol yn fwriadus a chydlynus'.

Cwestiwn 5 – Ydych chi'n cytuno y dylid creu cyfundrefn statudol ar gyfer categoreiddio ysgolion a gynhelir yn ôl cyfrwng iaith?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Rydym o'r farn y byddai creu cyfundrefn gategoreiddio statudol yn rhoi gorfodaeth benodol ar bob ysgol a gynhelir yng Nghymru i gael ei chategoreiddio yn gywir ac yn dryloyw. Bydd hyn yn sail gadarn i fonitro perfformiad ysgolion wrth wireddu gofynion eu categori, ac yn rhoi cyd-destun clir ar gyfer y targedau cynnydd a fydd yn cael eu gosod yn eu cynlluniau cyflawni.

Mae'r categorïau anstatudol sy'n cael eu hamlinellu yn ddogfen Categori Ysgolion Yn Ôl Y Ddarpariaeth Cyfrwng Cymraeg (2021) yn fan cychwyn buddiol ar gyfer hyn. Fodd bynnag, rhaid sicrhau bod diffiniadau y categorïau yma'n glir i ysgolion ac i randdeiliaid fel aelodau y corff llywodraethol. Er enghraifft, bydd yn ddefnyddiol i nodi'r gwahaniaeth

rhwyng ysgol cyfrwng Cymraeg ac ysgol cyfrwng Cymraeg penodedig. Fe fydd hyn hefyd yn sicrhau gwell eglurder i rieni a disgyblion ynghylch deilliannau ieithyddol tebygol dysgwyr mewn ysgolion gwahanol.

Mae angen pennu amser cyswllt penodol ar gyfer datblygu'r Gymraeg sy'n cynnig y cyfleoedd gorau i ddatblygu medrau'r disgyblion yn unol â'r nodau ieithyddol. Mae'n allweddol bod yr amser cyswllt gyda disgyblion yn un ysgogol a chyfoethog ac wedi eu selio ar yr arferion addysgeg gorau. Yn rhy aml, mae sesiynau sydd wedi eu hamserlenni i gyfoethogi iaith lafar disgyblion mewn ysgolion cyfrwng Saesneg yn ailadroddus ac aneffeithiol.

Cwestiwn 6 – Ydych chi'n cytuno y dylid rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i bennu disgrifiadau'r categorïau mewn rheoliadau?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Trwy osod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i bennu'r disgrifiadau, sicrheir fod rheoliadau yn eu lle i ddiffinio'r categorïau mewn modd clir a chyson, er enghraifft drwy gyfeirio at ganran y ddarpariaeth disgwylir i'w cyflwyno trwy'r Gymraeg ac yn fwy pwysig, yn nodi'r disgwyliadau o ran lefel medrusrwydd y disgyblion yn y Gymraeg ar ddiwedd eu cyfnod yn yr ysgol. Gellid diffinio'r lefelau medrusrwydd yn unol â'r continwmm ieithyddol. Mae rhoi'r dyletswydd ar Weinidogion Cymru i bennu'r disgrifiadau yn sicrhau cysondeb ar lefel genedlaethol ac yn cyd-fynd â'r egwyddor bod gan ddarparwyr addysg rôl allweddol wrth gyfrannu at y targed cenedlaethol o filiwn o siaradwyr.

Cwestiwn 7 – Beth yw eich barn am gynnwys isafswm o ran amser a ddarperir yn Gymraeg? Beth yw eich barn am effeithiau isafswm o'r fath ar ysgolion, dysgwyr a staff? A ydych yn rhagweld unrhyw effeithiau eraill?

Sylwadau ategol

Mae'n rhaid i'r pwynt uchod gael ei gyfathrebu'n glir a gofalus gyda'r holl randdeiliaid. Rhaid cael rheoliadau clir i sicrhau tegwch a chysondeb ar draws bob darparwr ym mhob awdurdod. Mae'n bwysig nad yw ysgolion yn mynd islaw yr isafswm o oriau darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Fodd bynnag, wrth bennu isafswm, mae'n rhaid i'r oriau hyn fod yn heriol ac uchelgeisiol er mwyn galluogi'r Gymraeg i ffynnu yn ein hysgolion. Mae angen bod yn wyladwrus i beidio defnyddio iaith annelwig wrth gyfeirio at yr amser a ddarperir y Gymraeg, er mwyn sicrhau bod yr holl randdeiliaid yn gytûn o'r diffiniad - er enghraifft, gwersi penodol, sesiynau cofrestru, sesiynau cyd-addoli, cynnig all-gwricwlaidd.

Yn fwy pwysig yw nodi beth yw'r disgwyliadau o ran medrau dwyieithog y disgyblion yn unol â'r hyn a nodir yn y continwmm iaith ar ddiwedd eu cyfnod yn yr ysgol tan sylw. Mae amlinellu hyn yn glir yn gosod nod digamsyniol ar yr ysgol i wireddu'r targed. Hefyd fydd

hwn yn fodd i hyrwyddo cysondeb o un ysgol i'r llall. Yn ogystal byddai'r wybodaeth yma yn fuddiol i rieni wrth iddynt ystyried pa ysgol sy'n addas ar gyfer eu plant.

Fe fydd yr elfen hon yn cael sylw dyledus gennym yn ein harolygiadau o ran cydymffurfio a'r oriau y darperir ac o ran ansawdd y ddarpariaeth a gynigir.

Cwestiwn 8 – Beth yw eich barn am y cynigion ym mharagraffau 51 i 56 ynghylch gosod ysgolion mewn categori ieithyddol a rôl gymeradwyo yr awdurdod lleol yn y broses?

Sylwadau ategol

Credwn mai rôl yr awdurdod lleol yw pennu a chymeradwyo categori pob ysgol, ond bod ennill cytundeb chyd-weithrediad cyrff llywodraethol unigol hefyd yn rhan o'r broses. Sicrha hyn y bydd yr awdurdodau yn meddu ar wybodaeth cadarn o'u hysgolion a bydd well cysondeb o ran categorïau'r ysgolion o fewn, ac o'r naill awdurdod i'r llall. Mae angen i awdurdodau gynllunio'r ddarpariaeth yn strategol ar draws ardal ddaearyddol sylweddol. Gall dirprwyo'r cyfrifoldeb i gyrff llywodraethu amharu ar allu awdurdodau i wireddu nodau eu Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA).

Mae llinellau o atebolrwydd hefyd yn hanfodol. Cytunwn bod angen strwythurau clir sy'n rhoi'r hawl i awdurdodau lleol i wneud y penderfyniad terfynol wrth bennu categorïau iaith yr ysgolion. Bydd hyn yn osgoi unrhyw ddryswch. Bydd modd i Estyn chwarae rhan flaenllaw i fonitro'r ddarpariaeth yn yr ysgolion er mwyn sicrhau eu bod yn darparu'r hyn sy'n ddisgwyliedig ohonynt.

O ran paragraff 55, credwn ei bod yn bwysig bod ysgolion uwchradd a phob oed yn rhestru'n llawn a chywir y cyrsiau maent yn gynnig trwy'r Gymraeg yn eu prospectws er mwyn sicrhau dealltwriaeth lawn rhanddeiliaid o ystyron pob categori. Yn ogystal, rhaid gwahaniaethu rhwng 3T a 3P er enghraifft, er mwyn sicrhau bod ysgolion yn cynnig darpariaeth cyfrwng Cymraeg llawn a chynhwysfawr. Mae angen i randdeiliaid, fel rhieni, fod yn glir ar ystyr y term 'Ysgol Gymraeg', a bod y term yn cael ei ddefnyddio'n gyson wrth ystyried y categorïau.

Cwestiwn 9 – Ydych chi'n cytuno gyda'r egwyddor y dylai pob ysgol gynyddu ei darpariaeth Gymraeg dros amser?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Cytunwn ddylai'r egwyddor yma fod yn rhan o wead a meddylfryd y gyfundrefn addysg yng Nghymru. Byddai dyletswydd statudol yn rhoi statws a llwyfan i'r iaith ffynnu a thyfu

dros amser. Yn ogystal, byddai'n gosod her fuddiol er mwyn cefnogi pob ysgol, gan gynnwys ysgolion cyfrwng Saesneg, i gynyddu neu gyfoethogi eu darpariaeth bresennol.

Mae'n bwysig hefyd bod cefnogaeth yn cael ei ddarparu i'r ysgolion sydd yn ymrwmo i symud o un categori i'r nesaf. Mae'n anorfod y bydd angen adnoddau ychwanegol e.e. i sicrhau bod strategaeth bwrpasol yn ei le sy'n cynnwys ehangu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, datblygu cynllun dysgu proffesiynol cynhwysfawr gan gynnwys cyfranogi yn y Cynllun Sabothol Iaith Gymraeg, ayyb. Byddai adnoddau ychwanegol yn abwyd ac yn ysgogiad i ysgolion fentro ar y daith ac yn rhoi gwell sicrwydd y bydd y daith yn un llwyddiannus.

Cwestiwn 10 – Beth yw eich barn am y cynigion ym mharagraffau 57 i 60 ynghylch y broses o gynyddu darpariaeth Gymraeg ysgolion?

Cytunwn dylai fod cynnig categori dyheadol i ysgolion ar ben y categori a osodir hefyd fod yn opsiwn. Cytunwn hefyd, bydd cyflymder y daith hon yn amrywio ond mae'n gosod her i'r ysgolion hyn wella eu darpariaeth Gymraeg.

Ym mharagraff 59, sonnir am bwysigrwydd demograffeg y Gymraeg mewn dalgylchoedd. Credwn yn gryf bod angen darpariaeth Gymraeg sydd o fewn cyrraedd pob plentyn a sicrhau nad oes rhaid i blant deithio pellteroedd er mwyn cael mynediad at addysg Gymraeg, gan gynnwys wrth gynnig darpariaeth Gymraeg cyn oedran statudol ysgol.

Mae paragraff 60 yn nodi bod dyletswydd ar ysgolion i nodi sut y byddant yn mynd ati i gynyddu eu darpariaeth Gymraeg yn ymarferol. Mae'r pwyntiau a nodir yn bwysig iawn er mwyn cael darlun cliriach o ddewislen Gymraeg bob ysgol. Fodd bynnag, mae angen ailymweld â'r cynllun hwn yn flynyddol gan fod amgylchiadau yn newid yn enwedig o ran recriwtio staff. Dylai awdurdodau fonitro cywirdeb y cynllun hwn a'i effaith yn flynyddol.

Cwestiwn 11 – Ydych chi'n cytuno gyda'r cynigion ym mharagraffau 62 i 64 ynghylch monitro cynnydd ysgolion?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Cytunwn gyda'r cynigion yn y paragraffu uchod. Fel corff arolygu, fe allwn glymu'r gwaith o fonitro'r cynlluniau a'r ddarpariaeth fel rhan o'n harolygiadau craidd neu ymweliadau ymgysylltiol. Mae ein hymglymiad gyda holl awdurdodau Cymru hefyd yn caniatáu i ni rannu gofidiau os nad ydynt ar y trywydd cywir o ran gwireddu'r targedau a byddwn yn barod fel corff arolygu i gynnal adolygiadau chwim pe bai pryderon yn codi.

Cwestiwn 12 – Beth yw eich barn ynghylch sut ddylai awdurdod lleol benderfynu ai ysgol cyfrwng Cymraeg fyddai ysgol newydd a sefydlir?

Sylwadau ategol

Trwy bennu categori 'ysgol Gymraeg' ar ysgol newydd o'r dechrau, mae'n gosod sail gadarn a phendant i daith ieithyddol yr ysgol honno. Mae hefyd yn rhannu neges glir â rhanddeiliaid o gategori iaith yr ysgol. Yn y broses o aildrefnu, rhesymoli, neu uno ysgolion, cefnogwn y bwriad o anelu at gategori iaith uchelgeisiol er mwyn amlygu'r disgwyliad bod yr ysgolion yn symud ar hyd y continwmm ieithyddol.

Cwestiwn 13 – Ydych chi'n cytuno gyda'r cynnig yn yr adran hon ynghylch rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i lunio Cynllun Cenedlaethol statudol ar gyfer caffael a dysgu'r Gymraeg (fydd yn gosod cyfeiriad i'r cynlluniau gweithredu lleol statudol)?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Rydym yn cytuno gyda'r cynnig y dylai Gweinidogion Cymru lunio Cynllun Cenedlaethol statudol ar gyfer caffael a dysgu'r Gymraeg. Credwn ei bod yn bwysig fod holl weithgareddau i gefnogi disgyblion i gaffael a dysgu'r Gymraeg yn gydlynol a chyson. Nid yw gweithgareddau achlysurol neu ddarniog yn ddigon effeithiol i ddatblygu hyder a hyfedr iaith unigolion wrth gefnogi disgyblion i gaffael y Gymraeg dros gyfnod. Felly mae'r ffocws ar ddatblygu sgiliau Cymraeg a bod dilyniant ieithyddol o un cyfnod i'r nesaf yn holl bwysig ac mae angen sicrhau fod y sector gofal plant ac addysg blynyddoedd cynnar yn ogystal a'r sector ôl-16/addysg uwch yn rhan o'r cynllun.

Cwestiwn 14 – Ydych chi'n cytuno gyda'r cynigion ym mharagraffau 73 a 74 i bennu targedau cenedlaethol ynghylch y gweithlu addysg a'u cynnwys yn y Cynllun Cenedlaethol?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Mae'r papur gwyn yn nodi, na fydd modd ehangu addysg cyfrwng Cymraeg na gwella deilliannau ieithyddol dysgwyr ym mhob ysgol oni bai bod gennym gweithlu addysg â'r sgiliau iaith angenrheidiol. Dyma'r her fwyaf o ran gwireddu amcanion y Bil.

Mae'n holl bwysig bod addysg gychwynnol athrawon a dysgu proffesiynol yn cael eu cynllunio'n fanwl a gofalus er mwyn sicrhau fod mwy o athrawon a chymorthyddion gyda'r sgiliau Cymraeg angenrheidiol yn dod trwy'r system. Ers tair blynedd, mae'r nifer o hyfforddai sydd â medrau dwyieithog heb gyrraedd traean y targedau a osodwyd gan y Colegau Hyfforddi sydd yn tanlinellu'r her sydd yn y system at hyn o bryd. Yn ogystal,

mae'n bwysig bod prifysgolion yn hyrwyddo cyfleoedd i ddysgwyr barhau â'u hastudiaethau trwy gyfrwng y Gymraeg mewn amrywiol feysydd i alluogi dilyniant ieithyddol naturiol a chefnogi dysgwyr i godi hyder wrth siarad Cymraeg.

Credwn fod rôl allweddol gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol i ddatblygu a darparu cyfleoedd penodol i athrawon dan hyfforddiant ac i rai sydd newydd gymhwyso i gaffael yr iaith a bod disgwyliad ar athrawon darpar athrawon ac athrawon newydd yng Nghymru i ymgymryd â hyfforddiant o'r fath.

Cwestiwn 15 – Ydych chi'n cytuno bod y deilliannau a nodir ym mharagraff 82 yn parhau i gynnig ffocws clir i'r cynllunio cenedlaethol a lleol?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Mae'r 7 deiliant o fewn y CSCAAu yn parhau i gynnig ffocws clir ac yn parhau i adlewyrchu taith addysg dysgwr. Mae'n bwysig bod y camau gweithredu ar y gyfer y deilliannau yma'n cael eu monitro yn gadarn a rheolaidd.

Cwestiwn 16 – Ydych chi'n cytuno gyda'r cynnig i gyflwyno dyletswydd ar awdurdodau lleol i adolygu eu Cynllun Gweithredu Cymraeg mewn Addysg (CGCA) ar ôl 5 mlynedd i alinio gydag adroddiad cynnydd 5 mlynedd y Cynllun Cenedlaethol?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Cytunwn gyda'r cynnig i gyflwyno dyletswydd ar awdurdodau lleol i adolygu eu Cynllun Gweithredu Cymraeg mewn Addysg (CGCA) ar ôl 5 mlynedd i alinio gydag adroddiad cynnydd 5 mlynedd y Cynllun Cenedlaethol. Gall y dyletswydd uchod sicrhau fod cynlluniau'r awdurdodau yn parhau yn gyfredol a bod modd addasu a mireinio yn ôl y galw. Mae rôl gan Estyn yma i fonitro'r cynlluniau yn ein trafodaethau cyson gydag awdurdodau lleol ac i ymgymryd a gweithgareddau monitro ffurfiol ar gais y Llywodraeth pe gwyd yr angen i wneud hynny.

Cwestiwn 17 – Ydych chi'n cytuno gyda'r egwyddor y dylai targedau y Gymraeg mewn addysg gael eu gosod ar awdurdodau lleol gan Weinidogion Cymru?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Rydym yn cytuno fod cynnwys darpariaethau yn y Bil a fyddai'n rhoi i Weinidogion Cymru bŵer penodol i osod targedau ar gyfer CGCAau arfaethedig ynghylch addysg cyfrwng Cymraeg yn syniad da.

Rydym hefyd o'r farn fod angen edrych yn fanwl ar ddemograffeg ieithyddol Cymru ac adnabod fod yr her a'r amcanion lleol o ran y Gymraeg yn wahanol ar draws y wlad. Credwn bod angen sicrhau fod y targedau a osodir gan Weinidogion Cymru yn rhai sy'n addas i amgylchiadau lleol ond ar yr un pryd yn ddigon uchelgeisiol.

Cwestiwn 18 – Ydych chi'n cytuno gyda'r cynnig i Weinidogion Cymru gomisiynu adolygiad allanol o gynnwys Cynllun Gweithredu Cymraeg mewn Addysg (CGCA) drafft pan fo'n briodol?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Pan fo'n briodol, byddai'n fuddiol yn ein tyb ni i gomisiynu barn allanol annibynnol cyn penderfynu p'un ai i gymeradwyo, cymeradwyo gydag addasiadau neu i wrthod cymeradwyo y CGCA drafft. Mae'n bwysig fod eglurder ynglŷn â phwrpas adolygiad a beth fyddai'r deilliannau posib, gan gynnwys terfynau amser i gryfhau'r drafft os cyfyd yr angen i wneud hynny.

Cwestiwn 19 – Ydych chi'n cytuno gyda'r cynigion i roi dyletswyddau ar awdurdodau lleol i gynllunio eu gweithlu?

Cytuno	<input type="checkbox"/>	Anghytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	--------------------------	------------------	-------------------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Yn sicr, gall awdurdodau gynorthwyo wrth helpu i gynllunio'r gweithlu addysg. Yn ein tyb ni, mae angen mwy o gydweithio yn yr achos yma rhwng yr awdurdodau, Gweinidogion Cymru a sefydliadau addysg cychwynnol athrawon i gynyddu'r gweithlu. Rydym yn croesawu'r gwaith sydd wedi dechrau parthed 'Cynllun y gweithlu Cymraeg mewn addysg.' Gall yr awdurdodau yn sicr chwarae eu rhan trwy gasglu gwybodaeth am y nifer o ymarferwyr cyfrwng Cymraeg sydd eu hangen a gwau hyn i'w cynllun i dyfu addysg Gymraeg neu symud ysgolion ar hyd y categorïau ieithyddol yn eu hardaloedd. Byddai hyn yn galluogi'r awdurdodau lleol i fwydo gwybodaeth yn ôl i Lywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill i ddatblygu neu fireinio polisiâu ac ymyraethau cenedlaethol i ehangu neu ddatblygu'r gweithlu. Fodd bynnag, nid dyletswydd yr awdurdodau yn unig yw hyn.

Mae buddsoddiad ariannol, cymhellion a monitro parhaus yn hanfodol ar gyfer gwella'r sefyllfa, ynghyd â chydweithio rhwng yr awdurdodau, Llywodraeth Cymru a sefydliadau addysg gychwynnol athrawon. Yn ogystal, mae angen ystyried gofynion ieithyddol y gweithlu ategol mewn ysgolion, fel cynorthwywyr dysgu ac arbenigwyr yn y maes anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a gweithwyr ieuenctid.

Cwestiwn 20 – Ydych chi'n cytuno gyda'r cynigion ym mharagraffau 100 i 102 ynghylch cyhoeddi adroddiadau ar weithredu'r Cynlluniau Gweithredu Cymraeg mewn Addysg (CGCAau) a chynnydd yn erbyn targedau'r Cynllun Cenedlaethol?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Rydym yn cefnogi'r cynigion a wneir yn y paragraffau uchod. Trwy gyhoeddi'r adroddiadau adolygu blynyddol, gellir adolygu a gwerthuso'r cynnydd yn erbyn y targedau yn ogystal â mireinio'r camau gweithredu ar gyfer y flwyddyn ddilynol os nad yw'r cynnydd yn ddigon cadarn.

Yn yr un modd, cytunwn gyda pharagraff 102 sef y dylai Gweinidogion Cymru fod o dan ddyletswydd i gyhoeddi adroddiad cenedlaethol o gynnydd yn erbyn y targedau yn y Cynllun Cenedlaethol, a hynny yn flynyddol. Cytunwn y byddai'r adroddiadau blynyddol yn sail cadarn i gynllunio'r Cynllun Cenedlaethol ar gyfer y 5 mlynedd nesaf.

Mae Adroddiad Blynyddol PAEF yn adrodd ar safonau a darpariaeth parthed y Gymraeg ar draws y sectorau rydym yn eu harolygu. Mae'r testun yn cynnig safbwynt dilys a phwysig o'r sefyllfa gan dynnu sylw at gryfderau a meysydd datblygu.

Cwestiwn 21 – Ydych chi'n cytuno gyda'r cynnig i roi swyddogaeth i Estyn i gynnal adolygiad chwim a chynnig argymhellion mewn sefyllfaoedd lle mae'n ymddangos bod risg na fydd awdurdod yn gwireddu ei dargedau?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Rydym yn cytuno gyda'r cynnig i roi swyddogaeth i Estyn i gynnal adolygiad chwim o'r awdurdod lleol a gwneud argymhellion i'r awdurdod a/neu Weinidogion Cymru ynghylch y camau y dylid eu cymryd. Byddai cyhoeddi'r adroddiad hefyd o fudd i'r broses ac yn fodd i yrru gwelliannau. Rydym fel sefydliad mewn safle unigryw o safbwynt medru adrodd ar ddarlun cenedlaethol o'r cynnydd parthed y Gymraeg ar sail ymgysylltiadau uniongyrchol gyda darparwyr ar draws y sectorau rydym yn eu harolygu.

Cwestiwn 22 – Oes gennych chi unrhyw awgrymiadau eraill ynghylch sut i sicrhau bod awdurdodau lleol yn cymryd camau rhesymol i weithredu eu Cynlluniau Gweithredu Cymraeg mewn Addysg (CGCAau)?

Mae angen sicrhau bod gan gyrff llywodraethu ysgolion rôl flaenllaw wrth fonitro cynlluniau ysgolion. Er enghraifft, byddai'n fuddiol gwerthuso gwybodaeth a ddarperir gan arweinwyr ysgolion ynghylch cynnydd tuag at dargedau ddiweddar yn flynyddol.

Cwestiwn 23 – Ydych chi'n credu y dylid gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg i rieni a gofalwyr?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Mae'n holl bwysig fod awdurdodau yn hyrwyddo a marchnata addysg cyfrwng Cymraeg i rieni a gofalwyr. Er mwyn gwella hyn, mae angen cryfhau'r negeseuon ac esboniadau o ran beth yw addysg cyfrwng Cymraeg, manteision addysg cyfrwng Cymraeg a sut mae'r ddarpariaeth yn amrywio o ysgol i ysgol. Rhaid sicrhau bod rieni a gofalwyr yn deall cynnig ysgolion eu hardal a bod eu dealltwriaeth a'u gwybodaeth am ddarpariaeth addysg Gymraeg yn glir.. Rhaid sicrhau bod deilliannau ieithyddol y gwahanol fodolau yn ddealladwy.

Mae'n bwysig hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg o'r dechrau a chredwn fod gweithio mewn partneriaeth gyda chyrrff allweddol o fudd mawr. Ar gyfer y dysgwyr hynaf, mae cydweithio â'r Coleg Cenedlaethol Cymraeg o fudd wrth iddynt ystyried llwybrau wrth iddynt adael yr ysgol. Mae angen hyrwyddo manteision o berthnasedd yr iaith i fywyd bob dydd ac i'r gweithle.

Credwn hefyd ei bod yn bwysig bod awdurdodau yn hyrwyddo eu canolfannau trochi iaith. Er enghraifft, mae angen sicrhau bod rhieni neu ofalwyr yn ymwybodol o'r cyfle sydd ar gael i'w plant i dderbyn addysg drochi ar gamau gwahanol yn eu gyrfa ysgol.

Cwestiwn 24 – Pa gefnogaeth y dylai Weinidogion Cymru ei chynnig o ran hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg?

Sylwadau ategol

Mae'n bwysig fod addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ei hyrwyddo'n ganolog er mwyn rhoi iddo statws a llwyfan cenedlaethol. Mae goblygiadau ariannu'n dyngedfennol bwysig i'w hystyried er mwyn cefnogi datblygiad nodau'r CSGA. Mae'r rhain yn cynnwys, er enghraifft wrth ddarparu cyfleoedd dysgu proffesiynol i ymarferwyr ac wrth fireinio'r polisi trafniadaeth yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018), wrth ehangu darpariaeth

addysg drochi, ac wrth gefnogi'r cynlluniau sy'n ddibynol ar gyfalaf i adeiladu neu ehangu ysgolion cyfrwng Cymraeg mewn nifer o awdurdodau ar draws Cymru.

Mae angen datblygu strategaeth dysgu broffesiynol pendant ar gyfer athrawon mewn ysgolion cyfrwng Saesneg er mwyn eu cefnogi i gyfrannu at greu siaradwyr Cymraeg newydd. Er enghraifft, byddai'n fuddiol datblygu cyfleoedd dysgu proffesiynol cenedlaethol sy'n ffocysu ar addysgeg effeithiol wrth gyflwyno iaith.

Yn ogystal, mae angen sicrhau bod athrawon sy'n addysgu'r Gymraeg, ym mha bynnag gyd-destun yn gyfarwydd â'r fethodoleg a'r addysgeg fwyaf effeithiol o gyflwyno'r iaith.

Mae angen cefnogi rhieni a gofalwyr newydd i wneud dewisiadau am gyfrwng iaith addysg eu plant. Byddai cydweithio fwyfwy effeithiol rhwng byrddau iechyd a sefydliadau ymbarél sy'n cefnogi lleoliadau nas-cynhelir yn cael effaith cadarnhaol ar hybu dealltwriaeth rieni a gofalwyr o'r buddion o fod yn ddwyieithog.

Gall Llywodraeth Cymru sicrhau bod adnoddau dysgu cyfoes a hygyrch ar gael i gefnogi addysg cyfrwng Cymraeg ac addysg drochi.

Cwestiwn 25 – Ydych chi'n credu y dylid gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i hyrwyddo darpariaeth trochi hwyr i rieni, gofalwyr a dysgwyr?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Cytunwn gyda'r cwestiwn uchod gan ei bod yn bwysig bod awdurdodau yn hyrwyddo eu hunedau trochi er mwyn bod rhieni neu ofalwyr yn ymwybodol bod cyfle iddynt i symud eu plant i ysgol sy'n cynnig mwy o ddarpariaeth Gymraeg os ydynt yn dymuno.

Mae'r disgwyliad hwn yn mynd law yn llaw gyda llawer o'r CSGAau sy'n dangos fod unedau trochi yn ganolfan bwysig o fewn awdurdodau i sicrhau datblygiad addysg Gymraeg.

Cwestiwn 26 – Ydych chi'n credu y dylid gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu trochi hwyr i ddysgwyr?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Credwn bod gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu trochi hwyr i ddysgwyr yn bwysig. Mae ein hadroddiad thematig ar [Addysg Drochi Cymraeg - Strategaethau a dulliau i gefnogi dysgwyr 3-11 mlwydd oed](#), yn amlinellu manteision addysg drochi a'u fudd wrth gefnogi disgyblion i gaffael yr iaith Gymraeg. Manteisiol fyddai gweld darpariaeth o'r fath ymhob awdurdod ar draws Cymru gan ei fod yn adnodd gwerthfawr ac yn chwarae rhan mor bwysig wrth anelu at filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Cwestiwn 27 – Ydych chi'n cytuno â'r egwyddor y dylai cefnogaeth arbenigol ar gyfer dysgu'r Gymraeg gydol oes, gan gynnwys addysg ysgolion, gael ei chanoli o fewn un sefydliad?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Cytunwn â'r cynnig i ganoli cefnogaeth arbenigol ar gyfer dysgu'r Gymraeg gydol oes, gan gynnwys addysg ysgolion, o fewn un corff gweledol. Byddai hyn yn galluogi arbenigwyr o bob sector i ddod at ei gilydd er mwyn cynllunio'n ieithyddol ar draws yr holl sectorau gan ddarparu cysondeb i daith dysgwyr o bob oedran ar hyd y continwmm iaith.

Cwestiwn 28 – Ydych chi'n cytuno y dylai rôl y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol gael ei hehangu i ymgymryd â'r swyddogaeth neu oes model arall y dylid ei ystyried?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Mae gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol arbenigedd o ran dysgu a chaffael iaith ac rydym yn ystod ein harolygiadau wedi nodi y dylid rhannu'r fath arbenigedd gyda sectorau eraill. Yn ogystal, rydym wedi cyhoeddi astudiaethau achos ynglŷn â'r ffordd mae'r sector Cymraeg i Oedolion yn cynhyrchu siaradwyr gweithredol, er enghraifft

[Cymorth effeithiol yn helpu dysgwyr i siarad Cymraeg yn rhugl](#)

[Dulliau dysgu ffurfiol ac anffurfiol sy'n galluogi dysgwyr i gymathu â'r gymuned Gymraeg](#)

[Troi dysgwyr yn ddefnyddwyr y Gymraeg](#)

yn ogystal â chynnig hyfforddiant gwerthfawr i'r gweithlu addysg. [Cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn y gweithlu addysg](#)

Mae'r Ganolfan, a'r sector Cymraeg i Oedolion (CiO) , yn gyfarwydd iawn â disgwyliadau a lefelau'r Fframwaith Cyfeirio Ewropeaidd Cyffredin (CEFR). O ganlyniad, byddai modd ystyried ac addasu cwricwlwm cenedlaethol y sector, sydd yn seiliedig ar y CEFR, fel sail ar gyfer y continwmm iaith ym mhob sector. Mae'r Ganolfan Genedlaethol eisoes yn gyfrifol am hyfforddiant Cymraeg i weithluoedd drwy raglenni Cymraeg Gwaith. Credwn felly, y byddai'n rhesymegol i ymestyn swyddogaeth y Ganolfan Genedlaethol, gan fanteisio ar ei phrofiad ac arbenigedd, i greu corff fyddai'n cynnig arweiniad strategol ac ymarferol ar draws y sectorau addysg.

Cwestiwn 29 – Ydych chi'n cytuno gyda'r egwyddor y dylid gwarantu bod yna ddigon o ddarpariaeth dysgu Cymraeg a strwythurau addas mewn lle i gefnogi dysgwyr o bob oed yng Nghymru?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Credwn ei bod yn holl bwysig i ddysgwyr o bob oed feddu ar gyfleoedd i ddechrau neu barhau ar eu taith tuag at ddod yn siaradwyr gweithredol. Byddai creu un continwmm iaith, yn ogystal â chynlluniau penodol, fel y cynllun newydd i gynnig cyrsiau am ddim i bobl 16-25 oed, yn cynnig cyfleoedd gwirioneddol gyfartal i ddysgwyr o bob oed wneud hynny. Credwn hefyd fod angen i addysg gydol oes, gan gynnwys partneriaethau dysgu oedolion yn y gymuned, wneud llawer mwy nag y maent yn ei wneud a hyn o bryd i gynnig cyfleoedd cyfartal i siaradwyr Cymraeg, boed hynny yn ddysgwyr hyfedr neu siaradwyr rhugl, ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg ac o ganlyniad gwella a defnyddio eu medrau ieithyddol.

Cwestiynau o'r ddogfen 'Amlinelliad o gostau ac effeithiau a fydd yn sail i Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Bil Addysg Gymraeg

Cwestiwn 30 – Ydych chi'n cytuno gyda'n dehongliad ni o'r grwpiau a'r cyrff sy'n cael eu heffeithio gan y newidiadau? A oes grwpiau neu gyrff eraill yn dod o fewn cwmpas y newidiadau ar wahân i'r grwpiau a'r cyrff a nodir yn yr amlinelliad o gostau ac effeithiau a fydd yn sail i Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Bil Addysg Gymraeg?

Cytuno	<input checked="" type="checkbox"/>	Anghytuno	<input type="checkbox"/>	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	<input type="checkbox"/>
---------------	-------------------------------------	------------------	--------------------------	--	--------------------------

Sylwadau ategol

Cwestiwn 31 – Ar wahân i'r grwpiau a'r cyrff a nodir yn yr amlinelliad o gostau ac effeithiau a fydd yn sail i Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Bil Addysg Gymraeg ar ba grwpiau neu gyrff fyddai'r costau'n disgyn?

Sylwadau ategol

Cwestiwn 32 – Beth yw'r effeithiau eraill (ariannol ac anariannol) sy'n ymwneud â'r ddeddfwriaeth arfaethedig nad ydynt wedi'u hamlinellu yn yr amlinelliad o gostau ac effeithiau a fydd yn sail i Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Bil Addysg Gymraeg?

Sylwadau ategol

Cwestiwn 33 – A oes unrhyw sylwadau eraill ar yr amlinelliad o gostau ac effeithiau a fydd yn sail i Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Bil Addysg Gymraeg?

Cwestiynau gorfodol

Cwestiwn 34 – Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r cynigion yn y Papur Gwyn yn eu cael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Pa effeithiau y byddai'n eu cael, yn eich barn chi? Sut y gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol a lliniaru'r effeithiau negyddol?

Sylwadau ategol

Mae nodau'r Bil yn ymwneud yn uniongyrchol ar gynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg. Rydym yn cytuno gyda bron bob un o'r cwestiynau, ac felly o'r farn clir bydd y Bil yn cael effaith cadarnhaol ar yr iaith Gymraeg. Mae'r Bil yn hybu dwyieithrwydd yn fuddiol.

Cwestiwn 35 – Eglurwch hefyd os gwelwch yn dda sut rydych chi'n credu y gallai'r cynigion arfaethedig gael eu llunio neu eu haddasu er mwyn: cael effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a pheidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Sylwadau ategol

Cwestiwn 36 – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os hoffech dynnu ein sylw at unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â nhw, gallwch ddefnyddio'r blwch isod i wneud hynny:

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddiennw, ticiwch yma: